

# Engaging children physically

## Ymgysylltu plant yn gorfforol

The ideas and inspiration below features the practice and work of members of the project team.
For more information to help you explore and reflect further see our section on creating effective spaces.

pacey Cymru

# Recycled water play spaces
## Lleoedd chwarae dŵr sydd wedi'u hailgylchu



Alison Sussex made a water wall using a pallet, guttering and pipes. She wanted to engage the children physically. 'My water wall has been a huge success for all ages. The littlest ones have been scooping and pouring the water and the older ones have had races to see which way the water goes down the fastest.'



Adeiladodd Alison Sussex wal ddŵr gan ddefnyddio paled, gwteri a phibellau. Roedd hi eisiau ennyn diddordeb y plant yn gorfforol. 'Mae fy wal ddŵr wedi bod yn llwyddiant ysgubol i bob oed. Mae'r rhai ieuengaf wedi bod yn sgwpio ac yn arllwys y dŵr ac mae'r rhai hŷn wedi cael rasys i weld pa ffordd mae'r dŵr yn mynd i lawr y cyflymaf.'

Access to this resource challenged and supported children's balance and co-ordination. The resource was open ended so that it could be used in different ways according to the children's interests and stage of development.



Sioned Roberts also used guttering on different levels to create an exciting water play system outside. Again, just by accessing it children were stretching up, crouching down, balancing, pouring carefully and involved physically. Another great recycled space!

Roedd mynediad at yr adnodd hwn yn herio ac yn cefnogi cydbwysedd a chydlynu plant. Roedd yr adnodd yn benagored fel y gallai gael ei ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd yn unol â diddordebau a cham datblygu'r plant.



Defnyddiodd Sioned Roberts gwteri ar wahanol lefelau i greu system chwarae dŵr gyffrous y tu allan. Unwaith eto, dim ond drwy gael mynediad ato roedd plant yn ymestyn i fyny, yn cyrcydu i lawr, yn cydbwyso, yn arllwys yn ofalus ac yn cymryd rhan yn gorfforol. Lle gwych arall sydd wedi'i ailgylchu!

As always the importance of risk assessment is important. Read more on pallet safety in our previous Cwlwm newsletter.

# Floor based spaces
# Lleoedd ar y llawr






Bethany Shirley explored her setting from the child’s perspective and took photos as a record. She identified some dead spaces which she wanted to develop and also decided to introduce different levels of play. She started using the floor as a valuable context and accessed a huge wooden slice which was sanded and varnished. It made a great kneeling space.

Archwiliodd Bethany Shirley ei lleoliad o safbwynt y plentyn a thynnodd luniau fel cofnod. Nododd rai lleoedd gwag yr oedd am eu datblygu a phenderfynodd hefyd gyflwyno gwahanol lefelau o chwarae. Dechreuodd ddefnyddio'r llawr fel cyd-destun gwerthfawr a chyrchodd dafell bren enfawr a gafodd ei sandio a'i farneisio. Gwnaeth le penlinio gwych.

Bethany then introduced a cosy small space to crawl into. Keeping spaces open ended has allowed children to develop their own ideas and use the spaces in ways that work for them. She said 'They are really enjoying it. Lots of role play goes on in there, hiding things in the blankets as it’s dark and then finding them again. One little one uses it as a quiet space for looking at books. It takes him away from the noise of the main playroom for a bit. It has also been used by afterschool children as an area to calm down after a busy day at school.'

Yna cyflwynodd Bethany le bach clyd i gropian iddo. Mae cadw lleoedd yn benagored wedi caniatáu i blant ddatblygu eu syniadau eu hunain a defnyddio'r lleoedd mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw. Dywedodd ‘Maen nhw wir yn ei fwynhau. Mae yna lawer o chwarae rôl yn digwydd yno, gan guddio pethau yn y blancedi gan ei fod yn dywyll ac yna dod o hyd iddyn nhw eto. Mae un plentyn bach yn ei ddefnyddio fel lle tawel ar gyfer edrych ar lyfrau. Mae'n mynd ag ef i ffwrdd o sŵn y brif ystafell chwarae am ychydig. Mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio gan blant ar ôl ysgol fel ardal i dawelu ar ôl diwrnod prysur yn yr ysgol.’

# A crawl-in semi-private space
# Man lled-breifat cropian i mewn


Alison made this small space using furniture, cushions and materials she already had. 'All the young children in my care loved crawling in through the tunnel. They engaged in some lovely conversations in there.' This child-sized space offers a semi-private area. The feeling of not being obviously listened to can help children open-up and chat more freely together. The flexibility of this space is great. It is easy to assemble and pack away at the end of the day.

Creodd Alison y lle bach hwn gan ddefnyddio dodrefn, clustogau a deunyddiau oedd ganddi eisoes. ‘Roedd yr holl blant ifanc yn fy ngofal wrth eu bodd yn cropian i mewn drwy'r twnnel. Gwnaethant gymryd rhan mewn sgyrsiau hyfryd yno.’ Mae'r lle maint plentyn hwn yn cynnig ardal lled-breifat. Gall plant fod yn fwy agored am eu teimladau a sgwrsio'n fwy rhydd gyda'i gilydd pan na fyddant yn teimlo bod rhywun yn gwrando yn amlwg arnynt. Mae hyblygrwydd y lle hwn yn wych. Mae'n hawdd ei adeiladu a phacio i ffwrdd ar ddiwedd y dydd.

# Balancing skills
# Sgiliau cydbwyso



Ruth Davies used off cuts of wood in her setting to provide opportunities for children to practice balancing skills and coordination and so supported their physical development. Ruth said 'Having done an audit of my outside area and from my general observations I decided to add in more natural materials. I collected some offcuts of wood which were given to me to make an obstacle course, as the children love balancing, especially the two years olds.'

Defnyddiodd Ruth Davies dorion o bren yn ei lleoliad i ddarparu cyfleoedd i blant ymarfer sgiliau cydbwyso a chydsymud ac felly cefnogodd eu datblygiad corfforol. Dywedodd Ruth 'Ar ôl cynnal archwiliad o fy ardal allanol ac o fy arsylwadau cyffredinol, penderfynais ychwanegu deunyddiau mwy naturiol. Gwnes i gasglu rhai torion o bren a roddwyd i mi i wneud cwrs rhwystrau, gan fod y plant wrth eu bodd yn cadw eu cydbwysedd, yn enwedig y plant dwy oed.'

# Reflect!
# Myfyriwch!

- Re-purposing materials is a great (and cheap!) way to create a bespoke resource for your setting. Pallets can be used in so many different ways. Do you know any local trades people who could give you pallets and off cuts of guttering for your setting? Speak to the parents of children in your care for suggestions.

- Do you offer small child-sized spaces in your setting that support physical development? How could you use materials you already have in new ways? Observe what happens in the space. What surprises you? Is it more popular at different times of the day? Who uses it most? Your observations will help you think about what next.

- Think about co-ordination, balance and motor planning skills. Do you challenge children enough physically in your setting?

- Mae ail-bwrpasu deunyddiau yn ffordd wych (a rhad!) i greu adnodd pwrpasol ar gyfer eich lleoliad. Gellir defnyddio paledi mewn cymaint o wahanol ffyrdd. Ydych chi'n adnabod unrhyw grefftwyr lleol a allai roi paledi a thorion gwteri i chi ar gyfer eich lleoliad? Siaradwch â rhieni plant yn eich gofal am awgrymiadau.

- Ydych chi'n cynnig lleoedd bach maint plant yn eich lleoliad sy'n cefnogi datblygiad corfforol? Sut allech chi ddefnyddio deunyddiau sydd gennych chi eisoes mewn ffyrdd newydd? Arsylwch ar beth sy'n digwydd yn y lle. Beth sy'n eich synnu? A yw'n fwy poblogaidd ar wahanol adegau o'r dydd? Pwy sy'n ei ddefnyddio fwyaf? Bydd eich arsylwadau yn eich helpu i feddwl am yr hyn sydd nesaf.

- Meddyliwch am sgiliau cydbwyso, chydsymud a chynllunio moduron. Ydych chi'n herio plant yn gorfforol digon yn eich lleoliad?